



Annwyl Rien / Gofalwyr,

Wrth i ni agosau at ddiwedd y tymor hwn, hoffwn gyflwyno ychydig o wybodaeth i chi. A fyddech cystal a chymryd ychydig o amser i ddarllen y wybodaeth bwysig yma, yn ogystal a chymryd amser hefyd i rannu'r wybodaeth yma gyda aelodau eraill o'r teulu neu ffrindiau sydd gan gyfrifoldeb am ddod a'ch plentyn i'r ysgol, neu am gasglu eich plentyn o'r ysgol.

Iechyd & Diogelwch / Covid-19 - Yn dilyn cyhoeddiad mwyaf diweddar Llywodraeth Cymru yn ymwneud a newidiadau i gyfyngiadau Covid-19, mae'r rheolau a'r canllawiau o ran ysgolion yn parhau yr un fath. Wrth i ni barhau i dderbyn cadarnhad o achosion positif ymysg disgyblion a staff, byddwn yn parhau i weithredu ein trefniadau iechyd a diogelwch yn ystod y diwrnod ysgol, yn ein hymdrechion i leihau achosion o Covid-19. Mae rhain yn cynnwys staff yn gwisgo mygydau pan yn symud o amgylch yr adeilad, amseroedd egwyl/cinio wedi ei gwasgaru, hybu golchi dwylo a glendid, lleihau unrhwyl gymysgu anorfod o grwpiau oedran gwahanol, yn ogystal a chadw pellter gofalus o eraill. Fel rhieni / gofalwyr, gofynnwn i chi barhau i wneud pob ymdrech i leihau unrhyw risg pan ar safle'r ysgol. Diolch. Mae'r gofynnion hyn yn cynnwys:

Un rhiant/oedolyn/ofalwr yn unig i ddod a'r plentyn neu i gasglu'r plentyn o fuarth yr ysgol.

Defnyddio'r llwybr un ffordd ar ôl casglu eich plentyn o fuarth yr ysgol.

Yn ogystal a ymadael a buarth/ safle'r ysgol yn brydlon ar ôl casglu eich plentyn, rydym hefyd yn annog i bob un i barhau i barchu rheolau cadw pellter o eraill gan hefyd wisgo mwgwd/gorchudd pan ar safle'r ysgol.

Os yw eich plentyn yn arddangos symptomau o Covid-19 (peswch, tymheredd, colli blas, teimlo yn sal), er tegwch a pharch i iechyd eraill, dylech sicrhau fod eich plentyn yn cael ei brofi. Os yn profi'n positif, dylai ef/hi aros adref ac osgoi cyswllt gyda eraill. Dylai ef/hi aros adref am 5 diwrnod a phrofi eto ar ddiwrnod 5. Diwrnod 1 fydd y diwrnod yn dilyn y dydd pan y profwyd yn positif. Dylai eich plentyn ddychwelyd i'r ysgol ar ôl cael dau brawf negyddol dilynol o ddiwrnod 5 ymlaen (hyd at ddiwrnod 10)

Mae pecynau PLIU ar gael o'r ysgol os oes angen.

Presenoldeb - Mae presenoldeb ein disgyblion yn flaenoriaeth barhaus i ni. Mae'n allweddol fod eich plentyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Dim ond pan fydd eich plentyn yn sal y dylai aros adref o'r ysgol. Os yw ef/hi yn absennol, yna gofynnwn i chi gysylltu efo'r ysgol ar ddiwrnod cyntaf yr absenoldeb. **Dylid gwneud hyn cyn 9.30.** Byddwn yn monitro ac yn cyd-gysylltu gyda rhieni/ofalwyr pan mae presenoldeb yn dod yn achos o bryder, a byddwn yn cydweithio'n agos gyda swyddogion lles a phresenoldeb yr Awdurdod Lleol. Mae'r Awdurdod Lleol wedi hysbysu ysgolion fod pwyslais cynyddol ar ymateb i absenoldebau di-awdurdodedig cyson yn ogystal a disgyblion sydd yn gyson yn cyrraedd yn hwyr i'r ysgol.

Os am dynnu eich plentyn allan o'r ysgol yn ystod y tymor, yna bydd angen i hyn gael ei awdurdodi gan y pennaeth. Bydd hyn yn ddibynol ar ganran presenoldeb eich plentyn. Os yw'r presenoldeb yn isel, yna yn y mwyafrif o achosion, ni fydd ceisiadau am wyliau yn mwyafrif o achosion yn cael ei hawdurdodi. Yn unol a pholisi'r ysgol yr uchafswm o ddyddiau a awdurdodir yn y flwyddyn yw 5 dydd. Rydym yn annog rhieni i wneud pob ymdrech i osgoi trefnu gwyliau yn ystod y tymor ysgol. Mae mwy o wybodaeth ynglyn a phresenoldeb ar gael yn yr ysgol pe dymunir.

Apel Wcraïn / Diwrnod Trwyn Coch - Diolch i bawb a gefnogodd y ddwy ymgyrch ddiweddar. Roedd y nifer o eitemau a nwyddau a gyfranwyd i apel Wcraïn yn wych i'w weld a diolchwn am garedigrwydd pawb a gyfranodd. Diolch hefyd i bawb a gefnogodd diwrnod Trwyn Coch apel Plant mewn angen.

Cŵn - Hoffwn eich atgoffa, oherwydd resymau iechyd a diogelwch, nad oes caniatad i gŵn ddod ar gampws yr ysgol. Diolch am eich cyd-weithrediad.

Staffio - Ar ddiwedd y tymor hwn byddwn yn ffarwelio gyda Mr Sion Owen. Mae Mr Owen wedi cael cyfle i gymryd cyfrifoldeb fel Dirprwy Bennaeth yn Ysgol Bryn Tabor yng Nghoedpoeth ar gytundeb secondiad hyd at 2024. Rydym yn llongyfarch Mr Owen ac yn dymuno'r gorau iddo yn y swydd hon. Bydd Miss Catrin Rowlands yn cymryd cyfrifoldeb dros ddosbarth blwyddyn 3 a 4 Mr Owen hyd at ddiwedd y flwyddyn ysgol. Edrychwn ymlaen i groesawu Miss Rowlands yn ôl i'r ysgol yn dilyn ei chyfnod diweddar gyda ni ble bu yn gyfrifol am addysgu'r dosbarth derbyn. Yn ystod cyfnod secondiad Mr Owen, bydd Mrs Laura Davies yn cymryd cyfrifoldeb fel cydgysylltydd lles ac Anghenion Dysgu Ychwanegol yr ysgol. Rydym hefyd yn croesawu Mrs Patricia Davies i'r ysgol, sydd wedi cychwyn ar ei chyfrifoldebau fel cymhorthydd dosbarth.

Cyfathrebu - Gwefan yr ysgol, Schoop, e,byst, App yr ysgol a chyfrif Trydar yr ysgol yw'r prif ffynhonnellau o gyfathrebu gwybodaeth sydd gan yr ysgol ar hyn o bryd. A fyddech cystal a sicrhau fod rhain yn cael ei gwirio yn rheolaidd.

Diwedd Tymor - Dydd Gwener Ebrill 8fed fydd diwrnod olaf y tymor i'r disgyblion a staff. Bydd dydd Llun Ebrill 25ain yn ddiwrnod hyfforddiant i staff. Bydd yr yr ysgol yn ail agor i'r disgyblion ar ddydd Mawrth Ebrill 26ain.

Dydd Llun Gŵyl Banc Calan Mai - Bydd yr ysgol ar gau ar ddydd Llun Mai yr 2ail gan y bydd yn ddydd Llun Gŵyl Banc Calan Mai.

Cofiwch gysylltu â'r ysgol os ydych yn ansicr o unrhyw beth. Rydym yma i helpu ac rydym wastad yn awyddus i drafod unrhyw faterion a datrys unrhyw broblem er llês y plant.

Os oes gennych bryder ynghylch eich plentyn (addysg/ymddygiad ayyb) - yn y lle cyntaf cysylltwch â'r **athro/athrawes dosbarth**. Efallai y cewch eich cyfeirio at aelod arall o staff yr ysgol.

Os nad ydych yn hapus gyda'r ymateb - dylech chi gysylltu gyda **Mrs Manon Williams** (Pennaeth Cyfnod Allweddol 2), **Mrs Manon Davies** (Pennaeth Cyfnod Sylfaen) neu **Mr Dyfan Jones** (Dirprwy Bennaeth).

Os ydych yn parhau i fod yn anfodlon gyda'r ymateb, cysylltwch â **Mr Rhodri Jones** (Pennaeth)

Os ydych chi'n parhau i fod yn anfodlon, dylech gysylltu â **Mr Geraint Phillips**, Cadeirydd Llywodraethwyr yr Ysgol.

Cysylltwch gyda'r athro/awes ddosbarth drwy e.bost os oes gennych gwestiwn ynglyn a'ch plentyn, neu gyda'r swyddfa drwy mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk am unrhyw ymholiad cyffredinol.

Cofion gorau atoch gan ddiolch i chi am eich cydweithrediad parhaus. Cadwch yn ddiogel gan gymryd gofal gyda'ch teuluoedd dros y Pasg.

Yn gywir,

Rhodri Jones

Pennaeth